**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1478
Ein cyf/Our ref HIDCC/10356/24

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd – Pwyllgor Deisebau

deisebau@senedd.cymru

29 Hydref 2024

Annwyl Carolyn,

Diolch am eich llythyr ar 4 Hydref yn gofyn am fy marn fel Ysgrifennydd y Cabinet gyda chyfrifoldeb arweiniol am Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar faterion a godwyd yn Neiseb P-06-1478, yn gofyn am "adolygiad cynhwysfawr o waith Cyfoeth Naturiol Cymru a methiannau'r sefydliad o ran cyflawni ei rwymedigaethau statudol i ddiogelu Cymru ".

Fel y nodwyd gennych, yn ddiamau mae staff proffesiynol ac angerddol o fewn CNC sy'n gweithio'n galed bob dydd i helpu i ddiogelu ein hamgylchedd naturiol. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cyfarfod â CNC yn rheolaidd i fonitro a dadansoddi perfformiad CNC wrth gyflawni nodau ac amcanion y cytunwyd arnynt, yn enwedig mewn perthynas â chyflawni ei ddyletswyddau a'i swyddogaethau statudol.

Yn ogystal, byddwch hefyd yn ymwybodol bod Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith y Senedd (CCEI) hefyd yn archwilio perfformiad CNC yn flynyddol. Cafodd yr adroddiad diwethaf (Adroddiad Blynyddol ar Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) 2023-24) ei gyhoeddi ar 21 Mai 2024 ac fe'i trafodwyd yn y Senedd ar 2 Hydref 2024

Unwaith eto, diolch am ysgrifennu ataf i dynnu fy sylw at y ddeiseb hon. Rwy'n gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o gymorth i chi yn eich rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau.

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.